# Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

**2013 dccc 2**

*Mesurau diogelu ar gyfer busnesau bwyd*

## 11 Yr hawl i ateb

(1) Rhaid i awdurdod bwyd roi cyfle i weithredwr sefydliad busnes bwyd i roi sylwadaethau ar sgôr hylendid bwyd y sefydliad.

(2) Rhaid i unrhyw sylwadaethau o'r fath gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig a chaniateir eu cyflwyno i awdurdod bwyd ar unrhyw adeg tra bo'r sgôr yn ddilys, p'un a yw apêl wedi ei gwneud o dan adran 5 ai peidio.

(3) Rhaid i awdurdod bwyd anfon unrhyw sylwadaethau o'r fath ymlaen at yr ASB a gaiff gyhoeddi'r sylwadaethau ar ei gwefan ynghyd â'r sgôr hylendid bwyd y mae'r sylwadaethau yn ymwneud â hi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I2** A. 11 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(f)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Adran 11.